**EITEM AR YR AGENDA: 16**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR GYFER YR AWDURDOD TÂN**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 15fed Rhagfyr 2003 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Rhoi gwybod i'r Aelodau am faterion yn ymwneud â Gwerth Gorau |

1. **GWYBODAETH**

1.1 Y Fframwaith Gwerth Gorau ar gyfer y Gwasanaeth Tân

Fel rhan o fwriadau'r Llywodraeth i sefydlu fframwaith Asesiad Perfformiad Cynhwysfawr ar gyfer y Gwasanaeth Tân, mae'r Comisiwn Archwilio wedi creu dau dîm archwilio i gynnal Asesiadau peilot ar ddwy frigâd yr un (yr un olaf wedi gwirfoddoli i'r drefn yma). Caiff canlyniadau'r asesiadau peilot yma eu defnyddio i deilwra system yr Asesiadau fydd wedyn yn cael eu treialu eto yn y Gwanwyn cyn cael eu mabwysiadu'n ffurfiol.

Y bwriad yw y bydd y Comisiwn Archwilio yng Nghymru (sy'n cael pob gwybodaeth am yr uchod) efallai yn gallu defnyddio canlyniadau'r treialon hyn i'w rhoi ar ffurf Rhaglen Wella Cymru i'w defnyddio ar gyfer y tri gwasanaeth yng Nghymru.

1.2 Adolygiadau Gwerth Gorau

Roedd Cylchlythyr y Gwasanaeth Tân 4/2002 yn gwneud gofyniad ar bob awdurdod tân yng Nghymru a Lloegr i gynnal adolygiad Gwerth Gorau yn ystod 2004/05 o'r gwaith hyfforddi. Gohiriwyd yr adolygiad, o'r amserlen wreiddiol sef ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2003, oherwydd y datblygiadau o ran rhoi'r System Datblygiad Personol Integredig (IPDS) ar waith.

Edrychwyd eto ar y dull yma, gan ystyried polisi'r Llywodraeth sydd ym Mhapur Gwyn y Gwasanaeth Tân ac Achub sef "Our Fire and Rescue Service", ac ailystyriwyd yr adolygiad o'r hyfforddiant, adolygiad a luniwyd ac y penderfynwyd ar ei gwmpas cyn cyhoeddi'r Papur Gwyn.

Byddir yn cael gwared ar y cyfarwyddyd statudol sy'n gwneud gofyniad ar Awdurdodau i gynnal yr adolygiad yma. Er hynny, mae darparu hyfforddiant yn dal yn flaenoriaeth uchel, a bydd strategaeth ar gyfer darparu safon ac effeithlonrwydd mewn hyfforddiant yn cael ei datblygu ar yr un pryd â rhoi IPDS ar waith.

2. **ARGYMHELLIAD**

Bod yr Aelodau'n nodi'r hyn sydd uchod.